# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Chwefror 2021

Amser: 09. - 11.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11064

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru<br>Dorian Brunt, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gruffydd Owen (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd cadarnhad gan y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau ac nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws): Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws).

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)729 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, yn ogystal â'r ymateb gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i law yn ystod y trafodion, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)728 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)703 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

### 4.2 SL(5)707 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.3 SL(5)723 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.4 SL(5)725 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 4.5 SL(5)726 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

Nododd y Pwyllgor ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(5)727 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021

Trafododd y Pwyllgor y Cod Ymarfer a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 6 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

### 6.1 SICM(5)39 – Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Addysg, Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) 2021

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r sylwebaeth.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chytunodd, yn ystod y sesiwn breifat, i ysgrifennu yn ôl i ofyn am ragor o wybodaeth am y Rheoliadau.

### 7.2 Gohebiaeth â'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder: Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth, gan nodi hefyd bod trefniadau'n cael eu gwneud i alluogi'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'i ymchwiliad i wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) – trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a chytunodd i gwblhau ei adroddiad y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor, cyn ei osod mewn pryd ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn sydd wedi'i threfnu ar gyfer 2 Chwefror 2021.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chytunodd i drafod drafft arall o'i adroddiad yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig – sesiwn friffio

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r sesiwn friffio tan y cyfarfod nesaf.

## 12 Fframweithiau cyffredin – y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.